BWRDD GWASANAETHAU LLEOL
GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2013 am 10 o'r gloch yng Ngholeg Menai, Bangor

PRESENNOL:

Meirion Hughes (Cadeirydd)
Doris Adlam, Gwasanaeth Prawf
Sarah Andrews, Iechyd Cyhoeddus
Dafydd Evans, Coleg Menai
Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd
Richard Fairhead, Gwasanaeth Tân ac Achub
Geraint George, Cyngor Gwynedd
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub
Clare Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
John R. Jones, Medrwn Môn
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru
Trystan Pritchard, Uwch Reolwr Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Aneurin Phillips, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Harry Thomas, Cyngor Gwynedd
Wyn Thomas, Prifysgol Bangor

YN MYNYCHU:

Rhian Bayley-Hughes, Partneriaeth Gwynedd a Môn
Sally Baxter, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mark Gahan, Medrwn Môn

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   Glyn Jones, Grŵp Llandrillo Menai
   Huw Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
   Bethan Williams, Mantell Gwynedd
   Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn

2. **UNRHYW FATER ARALL**

   Derbyniwyd cais gan Sally Baxter i gyflwyno papur briffio ar Strategaeth Gwasanaethau Clinigol Llym yn ystod eitem 6 ar yr agenda fusnes

3. **COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 10fed EBRILL 2013**

   Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Ebrill 2013 yn gywir.

4. **CYFEIRIAD A GWELEDIGAETH Y CYNLLUN INTEGREDIG SENGL (CIS)**

   Cyflwynodd Trystan Pritchard (TP) y papur ar weledigaeth y CIS ac eglurodd yr angen i edrych am ffyrdd i wella gwasanaethau ataliol. Aeth TP ymlaen i egluro bod y blaenoriaethau arfaethedig yn seiliedig ar asesiad o anghenion cadarn ac na fydd y CIS yn cynnwys prosiectau sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y gwasanaethau craidd; ond bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cymunedau cryfach, mwy gwydn ac annibynnol er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gronfeydd cyhoeddus.

   Dywedodd Harry Thomas (HT) bod y sefyllfa wedi newid yn sylweddol ers i'r blaenoriaethau cael eu gosod dros y tair blynedd diwethaf a dylai fwy o waith cael ei wneud ar y cyd i ddadansoddi gofynion ar wasanaethau. Dylid ymdrechu yn y maes hwn er mwyn canolbwyntio a thargedu ymyrraeth gydag adnoddau cyfyngedig, dylai fod cynaliadwyedd rhwng canlyniadau ac adnoddau.

   Ymhlith y trafodaethau a ddilynodd, cytunodd y BGLL y dylai'r grwpiau thematic pwysleisio ar dystiolaeth a bod blaenoriaethau presennol braidd yn eang. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar yr angen i'r CIS i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ac y dylai asesiad effaith ar gydraddoldeb cael ei ddatblygu wrth law â'r asesiad effaith ar yr effaith ar sefydliadau.

   Hefyd, dylai'r BGLL cael compact gydag asiantaethau partneriaethol er mwyn cysylltu asiantaethau i adnoddau i leihau gwariant blynyddol a chynorthwyo canlyniadau, gan roi pwyslais ar osgoi cost yn hytrach na rhyddhau costau.

   Cytunwyd y BGLL y dylai unrhyw faterion a allai rwystro cynnydd cael ei roi ger bron y Bwrdd mewn da bryd.

   GWEITHRED(AU) YN CODI:

   - **Yr Uned Bartneriaeth i gynhyrchu cynllun gweithredu manwl i'r BGLL i gynnwys cerrig milltir a dangos canlyniadau pendant.**

5. MEYSYDD BLAENORIAETH Y CYNLLUN INTEGREDIG SENGL (CIS)

Iechyd a Lles

Cyflwynodd TP y papur ar gynigion blaenoriaethau arfaethedig iechyd a lles. Trafodwyd y meysydd a ganlyn gan y grŵp thematic a'r Bwrdd Gwireddu eisoes i gael eu cynnwys yn y CIS:

- Cyd-gynhyrchu
- Tybaco
- Gordewdra

Trafodwyd y blaenoriaethau arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Cytunwyd y Bwrdd y dylai'r grŵp thematig iechyd a lles edrych ar y strategaeth iechyd a lles blaenorol i weld beth sydd wedi gweithio yn y gorffennol.

Pwysleisiodd aelodau'r BGLL y dylai'r grŵp thematic selio'r holl flaenoriaethau ar dystiolaeth gadarn.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Cytunwyd y BGLL i gefnogi'r blaenoriaethau a gofynnwyd i'r grŵp thematic iechyd a lles asesu'r Strategaeth Iechyd a Lles i weld pa ddeilliannau sydd wedi bod yn llwyddiannus eisoes.**

Plant a Phobl Ifanc

Cyflwynodd TP y papur ar flaenoriaethau arfaethedig y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Y mae'r blaenoriaethau a ganlyn eisoes wedi cae eu trafod gan y grŵp thematic a'r Bwrdd Gwireddu iddynt gael eu cynnwyd yn y CIS:

- Rhiantu
- Trafnidiaeth â
- Cyfleoedd Gwaith ôl 16

Cytunwyd y BGLL i gefnogi blaenoriaethau'r grwp thematic, ond hoffent weld cyfeiriant at y consortiwm addysg oddi fewn yr adroddiad. Trafodwyd materion rhiantu a chytunwyd y Bwrdd y dylai'r grŵp thematic edrych ar y deilliannau'r meant yn ceisio gwneud y gwahaniaeth i.

O ran trafnidiaeth, cytunwyd y Bwrdd bod y mater yma wedi cael ei godi ambell waith a byddai'r flaenoriaeth hwn yn enghraifft dda o gyd-gynhyrchu.

Wrth drafod cyfleoedd ôl 16, daeth yn amlwg bod prentisiaethau yn flaenoriaeth sydd yn cael ei drafod ar hyn o bryd mewn fforymau eraill. Ategwyd nad yw materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn cael ei drafod mewn man arall ar hyn o bryd a bod y BGLL yn lle priodol iddo gael ei drafod.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Grŵp thematig i gyfeirio at y consortiwm addysg yn y papur cynnig**
- **Grŵp thematic i ganolbwyntio ar ddeilliannau rhianta**

Diogelwch Cymunedol

Rhoddwyd y meysydd canlynol ger bron y BGLL i gysidro ac meant eisioes wedi cael eu trafod yn flaenorol gan y grŵp thematic a'r Bwrdd Gwireddu:

- Byrgleriaeth ddomestig
- Trais a thrais rhywiol difrifol
- Trais yn y cartref
- Ymosodiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol gydag anafiadau
- Grwpiau troseddu, sy'n achosi'r niwed mwyaf

Mewn perthynas â'r blaenoriaethau uchod cydnabyddir y Bwrdd bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn barod i fynd i'r afael â'r materion hyn ac y dylent gadw golwg ar y datblygiadau.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **BGLL i gadw trosolwg ar flaenoriaethau diogelwch cymunedol a chydnabod bod gwaith ataliol yn cael ei wneud.**

Amgylchedd

Cafwyd trafodaeth ynghylch ehangu'r prosiect lleihau carbon Gwynedd ar draws y ddwy sir. Mae angen trafodaethau pellach rhwng y Bartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd ac asiantaethau partneriaethol.

Pwysleisiodd Wyn Thomas y gall adran Amgylcheddol y Brifysgol fod o gymorth.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **TP a Mark Gahan i drafod datblygu'r prosiect gydag asiantaethau partneriaethol**

Economi

Cyflwynodd TP blaenoriaethau economi a chyflwynodd lythyr a ysgrifennwyd gan Gadeirydd y Fforwm Cynhwysiant Ariannol yn gofyn am gymorth y BGLL i nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol gan nodi parodrwydd y fforwm i weithio'n agos gydag unigolion ac asiantaethau yng Ngwynedd sydd yn darparu cymorth cynhwysiant ariannol.

Penderfynwyd y Bwrdd y dylai materion economi cael ei drafod o fewn partneriaeth economaidd bresennol a chroesawyd y cynnig gan y Fforwm Cynhwysiant Ariannol i gefnogi'r syniad o leihau tlodi.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Fforwm Cynhwysiant Ariannol i gyflwyno blaenoriaethau i'r BGLL erbyn y cyfarfod nesaf**

Iaith Gymraeg

Y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei gynnig i'r BGLL fel blaenoriaeth. Yn 2008, datblygodd y BGLL Gwynedd flaenorol gynllun lle byddai'r holl gyrff y sector gyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yng Ngwynedd ymrwymo i Siarter iaith Gymraeg Gwynedd; gyda'r nod o ddarparu safon gyson o wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus yng Ngwynedd.

Mae angen i gydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg pan gânt eu cyhoeddi, felly, cynigodd TP fod Medrwn Môn a Chyngor Sir Ynys Môn yn ymuno â'r cynllun.

Dywedodd Wyn Thomas bod prifysgol Bangor wedi diweddaru eu polisi iaith ac y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gysylltu â Chanolfan Bedwyr am gymorth.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **TP i ddarparu rhagor o wybodaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â sut y mae gofynion y Mesur Iaith Gymraeg yn effeithio ar wahanol asiantaethau.**

Cludiant a Mynediad

Cyflwynwyd cludiant a mynediad fel mater trawsbynciol a darganfuwyd trwy ymgynghoriad cyhoeddus diweddar a rhedwyd gan leol gan y GIG ac awdurdodau lleol bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fater allweddol.

Cytunodd y BGLL bod cludiant a mynediad yn fater pwysig a bod prosiectau fel TAITH yn chwarae rhan hanfodol. Trafodwyd y mater ymhellach a chytunwyd bod angen edrych ar y gofynion a'r cyllidebau i weld a oes opsiwn i gyfuno cyllidebau.

Dywedodd RPJ y dylai'r BGLL cael ei ddefnyddio fel Bwrdd i ddylanwadu a gosod cyfeiriad i grwpiau a ffrydiau gwaith eraill.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **TP i ddod ag unrhyw faterion yn ôl i'r BGLL**

6. COMISIWN AR LYWODRAETHAU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS: GALWAD AM DYSTIOLAETH

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad a thynnwyd sylw at wahoddiad diweddar y Comisiwn i helpu i lywio ei waith.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Dirprwyo ymateb i'r Cadeirydd a'i rannu gydag aelodau'r BGLL**

7. MATERION CYNLLUNIO A GWEITHREDU AELODAU

Ymgynghoriad Y Trydydd Sector a'r Llywodraeth

Tynnodd John R Jones sylw at yr ymgynghoriad sydd yn canolbwyntio ar adfywio perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yng Nghymru, ac mae'n rhoi ystyriaeth benodol i gadarnhau ac adnewyddu'r berthynas; cynnal seilwaith y trydydd Sector; ymgysylltu; cydweithio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol; a dogfennau fframwaith

Roedd y BGLL yn cael eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad cyn 8ef o Awst, 2013.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **TP i ymateb ar ran y BGLL**

Strategaeth Gwasanaethau Clinigol Llym

Darperwyd Sally Baxter drosolwg o'r strategaeth gwasanaethau clinigol llym a thynnodd sylw at y ffaith fod tri gweithdy eisoes wedi cael eu cynnal gyda their arall yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf.

Mae gwasanaethau gofal iechyd cychwynnol a gwasanaethau iechyd cymunedol yn cael eu datblygu trwy 'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid' oherwydd eu bod yn sylfaenol i iechyd y boblogaeth. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar anghenion pobl yng Ngogledd Cymru a bod cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau.

Os bydd y Strategaeth Gwasanaethau Llym Clinigol yn cynnig newidiadau i wasanaethau yna bydd hyn yn destun i ymgysylltu ac ymgynghori pellach fel bo angen.

Dywedwyd Sally Bater y byddai'n hapus i drefnu cyfarfodydd gydag aelodau'r BGLL cyn y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref, 2013.

8. ETHOL CADEIRYDD

Mynegodd TP ei ddiolch i'r cadeirydd, Mr Meirion Hughes am gytuno i weithredu fel cadeirydd Lleyg i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn a Gwynedd.

Anerchodd TP y BGLL a dywedodd ei bod yn amser i ethol Cadeirydd newydd. Ymhlith y trafodaethau cytunwyd y BGLL i drafod ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Aelodau'r BGLL i drafod ethol cadeirydd**

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Hydref 22, 2013 – Ystafell Pwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn